# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MAWRTH 1976

RHIF 28


# Eisteddfod Flynyddol i'r Fro


Ar ôl llwyddiant mawr yr Eisteddfod gyntaf a gynhaliwyd y llynedd dan nawdd Cymdeithasau Cymraeg y Fro, penderfynwyd y dylid sicrhau lle arbennig i'r Eisteddfod hon fel un o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn yn y Fro drwy gynnal yr Eisteddfod yn flynyddol. Eleni fe'i chynhelir yn Neuadd y Methodistiaid, Dinas Powys ar Nos Sadwrn, Ebrill 3ydd i ddechrau am 6.30 o'r gloch.

Cipiwyd prif wobr yr Eisteddfod y llynedd, sef Cadair yr Eisteddfod, gan Arwel John o Bontyberem, cyn-enillydd Cadair yr Urdd a Choron Pantyfedwen, a disgwylir cystadlu brwd o safon uchel unwaith eto eleni. Testun y Gadair (caeth neu rydd) yw "Meini" a chynigir cadair esmwyth i'r buddugol. Cynigir hefyd gwpanau am Englyn ar y testun "Derwen", englyn digri ar y testun "Hwch", soned ar y testun "Llanilltyd Fawr" ac amryw o gystadlaethau eraill ym myd barddoniaeth a rhyddiaith. Fe fydd hefyd gystadlaethau canu ac adrodd, cerdd dant ac arlunio ac yn arbennig darperir cystadlaethau arbennig i'r Dysgwyr i lunio cerdd ar y testun "Fy Mro", gorffen limerig ac ysgrifennu llythyr Caru.

Cewch y manylion i gyd drwy anfon am Rhaglen yr Eisteddfod oddiwrth yr Ysgrifennydd, Maxwell Evans, 86 Heol Redlands, Penarth (701963) ond er mwyn arbed costau i'r Eisteddfod, byddwch mor garedig â danfon stamp gyda'ch cais.

## GWYN YN GWELLA

**Drwg iawn oedd gennym glywed am anhwylder sydyn Gwyn Erfyl, ond mae dda gennym ddweud ei fod bellach yn gwella'n dda. Pob hwyl iddo a dymuniadau gorau am adferiad buan a llwyr.**




*Cerdyn Ffolant o'r arddangosfa PRIODAS.*

## Dathlu Priodas!

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru'n dathlu terfyn llwyddiannus i'r gyfres o arddangosfeydd 'Celfyddyd a Chymdeithas' pan egyr PRIODAS yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar 20 o Fawrth. Dangoswyd fersiwn lai o'r arddangosfa hon yn Antwerp gan Gyngor Ewrop; fe'i disgrifiwyd gan y 'Sunday Times' yn y modd a ganlyn: 'sgerbwd o dŵr disglair, gosgeiddig... tŷ gwydr cain er nodi yn llawen agweddau Prydeinig ar garwriaeth, neithior a phriodas drwy eitemau arddangos sy'n disgleirio a thywynnu fel adar amryliw mewn adardy sy'n drochfa o oleuni.' Wedi ei ehangu i gynnwys deunydd pellach o Ewrop, Asia ac America, bydd y fersiwn a ddangosir yng Nghaerdydd yn fwy trawiadol fyth.

Aeth saith mlynedd heibio bellach er dangos arddangosfa gyntaf 'Celfyddyd a Chymdeithas', sef 'Rhyfel'. Oddi ar hynny, parhaodd 'Gwaith' ac 'Addoli' thema'r gyfres. Mae 'Priodas' yn cwblhau'r dilyniant. Prif amcan y cwbl oedd arddangos y berthynas glos sy'n bod rhwng celfyddyd a bywyd. Curodd yr arddangosfeydd blaenorol bob record o safbwynt y nifer a ddaeth i'w gweld ble bynnag y'u dangoswyd a chydnabyddir yn rhyngwladol bellach eu bod yn waith arloesol pwysig ym maes cyflwyno arddangosfeydd. Cynhyrchwyd cyfrol gynhwysfawr wedi ei seilio ar y gyfres, o waith y trefnydd, Ken Baynes, ym mis Hydref ac fe'i cyhoeddwyd bellach yn yr Unol Daleithau, Ffrainc, Yr Iseldiroedd, yr Eidal a Sbaen yn ogystal ag yng ngwledydd Prydain.

Dichon mai 'Priodas' yw'r arddangosfa fwyaf cyffrous i'r llygad o'r pedair; ar yr un pryd, yn addas iawn, yr arddangosfa hon yw'r ysgafnaf, y mwyaf deniadol, y doniolaf a'r mwyaf gwacsaw ei chynnwys. Gwydraid o siampaen i derfynu'r gyfres!

*Yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd. 20 Mawrth — 25 Ebrill 1976.*

---

Ar ôl rhoi llonydd i'r darllenwyr am fis neu ddau, rhaid dychwelyd at yr un hen dôn gron, sef arian — neu ddiffyg arian, yn hytrach. Nid yw'r *Dinesydd* yn gallu byw ar y gwynt: rhaid cael cynhaliaeth o rywle. Os ydych chi'n darllen ac yn mwynhau'r papur, wnewch chi ddangos eich gwerthfawrogiad mewn ffordd ymarferol, os gwelwch yn dda. Trist yw cofnodi fod ymateb cymdeithasau, capeli ac ati yn dal i fod yn druenus o wael. Mae rhai a gyfrannodd yn y gorffennol heb wneud hynny eleni: os mai mater o anghofio yw hyn, wel, dyma eich hatgoffa am yr angen. Os mai difaterwch sy'n gyfrifol am y diffyg ymateb, yna mae'n rhaid i ni ofyn a oes angen *Y Dinesydd* ar Gaerdydd o gwbl.

Dylid danfon cyfraniadau, neu ymholiadau ynglŷn â thalu'n rheolaidd drwy archeb banc at: Mr Geraint Walters, Trysorydd *Y Dinesydd*, Dorwen, 29 The Rise, Llanishen, Caerdydd. Diolch yn fawr.

# GOLYGYDDOL

Cyfraniad Mr John Morris, Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddathliadau Gŵyl Dewi eleni oedd cyhoeddi na cheid penderfyniad ar y Bedwaredd Sianel yng Nghymru am flwyddyn arall. Dyna beth yw gohirio mewn steil: nid gohirio sefydlu'r Sianel Gymraeg, neu ohirio cychwyn darlledu arni — ond gohirio *meddwl* amdani am flwyddyn arall o leiaf. (Mae Mr Roy Jenkins, a gyhoeddodd y penderfyniad yn y Senedd mewn ateb i gwestiwn gan Mr Cledwyn Hughes, yn addo yr adolygir y sefyllfa ymhen blwyddyn — diolch yn fawr iddo.)

Hyderai Mr Morris y gwelai pobl yr angen am roi blaenoriaeth i adfywiad economaidd, tai ac anghenion cymdeithasol. Petai wedi cynnig cynllun pendant ar gyfer diwallu'r anghenion hyn yng Nghymru (heb son am awgrymu sut y gellid gwneud hyn oll am yr ychydig filiynau a arbedir drwy wrthod gwasanaeth darlledu teilwng i Gymru) hwyrach y byddem yn fwy tebygol o gymryd ei ddadleuon pitw o ddifrif. Ceisiwyd cymylu'r ddadl ymhellach drwy son am wella'r gwasanaeth darlledu presennol ac ehangu derbyniad lliw UHF yng Nghymru. Diolch i Gyngor Darlledu Cymru am ddangos mai celwydd noeth yw'r ddadl honno, a dim byd mwy nag ymgais anonest i geisio drysu meddwl y cyhoedd. Mewn datganiad pwysleisiodd y Cyngor fod y Gorfforaeth eisoes wedi'i hymdynghedu i gynlluniau felly ac mai ychwanegiad (drwy grant uniongyrchol gan y Llywodraeth) fyddai unrhyw arian a glustnodid ar gyfer datblygu Sianel Gymraeg. Meddai'r datganiad "Ni fydd gohirio'r bedwaredd sianel felly'n rhyddhau unrhyw arian ychwanegol i'r Gorfforaeth ar gyfer datblygiadau trosglwyddo."

Anodd deall y dacteg wleidyddol y tu ôl i'r penderfyniad hwn. Mae'r mwyafrif helaeth yng Nghymru yn cefnogi Sianel Gymraeg — hyd yn oed gelynion pennaf yr iaith sy'n gweld y Sianel yn gyfle gwych i gael gwared ar sain y Gymraeg o'u clustiau am byth — felly nid mater o gyfaddawdu gyda charfan rymus, elyniaethus a allai beryglu'r llywodraeth yw'r peth. Prin fod y ddadl ariannol yn dal dŵr: pysgnau yw'r gyfalaf angenrheidiol yn nhermau llywodraeth a oedd yn fodlon gwario dros £1,000,000,000 ar ddatblygu awyren sy'n gwneud dim byd ond hedfan ddwywaith yr wythnos i Bahrain (ble bynnag mae hynny) yn hanner gwag. Ymarfer bach arall yn y gêm oesol o roi'r Cymry yn eu lle hwyrach?

Beth bynnag am y rhesymau, y mae'n amlwg fod yn rhaid gwrthwynebu'r penderfyniad hwn ar unwaith — a dal i wrthwynebu nes sicrhau'r nod. Y cyfle cyntaf i'r rhan fwyaf ohonom i wneud hynny fydd Rali Cymdeithas yr Iaith Gymraeg tu allan i'r Swyddfa Gymreig fore Sadwrn nesaf, Mawrth 6ed: gobeithio y ceir cefnogaeth anferth i'r rali hon gan drigolion Caerdydd.

*** ***

Mae'r *Dinesydd* hwn yn ymddangos yn fwy fel adolygiad o ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol na phapur newydd. Diffyg cyfraniadau gennych chi'r darllenwyr sy'n rhannol gyfrifol am hyn; diolch o galon i'r ffyddloniaid sy'n cyfrannu'n rheolaidd bob mis, ond ble mae pawb arall o'r deuddeg mil o Gymry Cymraeg sy'n byw yng Nghaerdydd, heb son am y cylchoedd o gwmpas Caerdydd? Does dim pwynt cwyno wrth y Golygydd am nad yw eich cymdeithas neu'ch cyfarfod arbennig chi cael sylw yn y papur os nad ydych chi'n fodlon danfon adroddiadau, erthyglau ac ysgrifau atom.

Ar yr un pryd, hwyrach nad peth cwbl ddrwg yw troi'n "adolygiad" am un rhifyn; mae'n bwysig iawn talu sylw i'r myrdd o achlysuron Cymraeg a drefnwyd yn y ddinas dros y misoedd diwethaf (gan obeithio parhau'r lefel hon o weithgarwch, wrth gwrs). Mae llabyddio Caerdydd am ei diffyg Cymreictod wedi bod yn hen arfer diflas gan lawer y tu allan i'r ddinas, a'i chymharu'n anffafriol â llefydd megis Llanuwchllyn a Llanfyllin lle mae diwylliant Cymraeg yn rhedeg allan o glustiau pawb, a lle na cheir noson rydd fyth am fod cymaint o bethau'n digwydd. Erbyn hyn, rydym ni yng Nghaerdydd yn y sefyllfa ffodus (neu anffodus!) o gael mwy o bethau'n digwydd na sydd gan y rhan fwyaf ohonom yr amser neu'r amynedd i'w mynychu. Da oedd gweld *Y Faner* yn cyfaddef wythnos diwethaf iddi fod â'r un agwedd tuag at Gaerdydd yn y gorffennol — ac yn gwneud yn iawn am hynny drwy gyhoeddi rhestr faith o weithgareddau a sefydliadau a mudiadau Cymraeg y ddinas. Diolch i'r darllenydd anhysbys a welodd yn dda i oleuo Gwilym R. Drwy ddanfon copi o'r *Dinesydd* ato!


*UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU*

**Sefydliad rhydd ac annibynnol ddeugain mlynedd ar y blaen i Ddatganoli**

Onid yw'ch ymresymu cenedlaethol yn gwbl glir sythwch y dryswch yn awr trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen isod.

Tanysgrifiad Aelodaeth am 1976 — £10.00

Athrawon ar eu blwyddyn gyntaf o wasanaeth — £5.00

At: Yr Ysgrifennydd Gweinyddol,
UCAC,
11 Heol Gordon,
Caerdydd, CF2 3AJ.

Amgaeaf siec/archeb post, gwerth £.........., tanysgrifiad am 1976.

Enw ....................................

Cyfeiriad preifat ....................................

....................................

Cyfeiriad Ysgol/Coleg ....................................

Cyflogwr: ....................................


UCAC


Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
National Association of the Teachers of Wales
11 Gordon Road, Caerdydd/Cardiff CF2 3AJ Tel: 24692


Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Ebrill 9fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn MAWRTH 29 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.


# Henffych Henwyr Heini!

**Beth yw'r un peth sy'n gyffredin i griw o athrawon a phrifathrawon, trefnwyr iaith, penseiri, gwŷr y weinyddiaeth amaeth, cyfrifwyr, cyhoeddwyr y BBC, archifwyr, darlithwyr, pobl y Bwrdd Glo ac ati? Wel, y ffaith y gwelir y rhain yn ymboeni bob nos Lun fod eu gwast yn mesur llawer gormod, yn y dosbarth "Cadw'n heini" yn ysgol nos Radyr.**






Druan ohonynt, rhyw ymdrech olaf yw hon i ddal gafael ar ychydig o ieuenctid sydd bron â diflannu ers blynyddoedd. Ond er gwaethaf hynny, maent i gyd yn cymryd y peth o ddifrif calon. Ymwelodd bron pob un ohonynt â siop chwareuon i brynu esgidiau, llodrau a chrys addas i'r gwaith ac yn wir, roedd digon o wyneb gan rai ohonynt i brynu "siwt drac" groenlyd (skintight) a bwysleisiai'r angen am Wlpan i weddnewid eu ffigurau, nid dosbarth cysurus, cyfleus ddim ond unwaith yr wythnos!




Am saith o'r gloch union, gwelir y criw di-siap, eiddgar yn gwanu eu ffordd i'r neuadd chwareuon, a gwae unrhyw bêl anffodus sy'n digwydd sefyll o'u blaen; anelir y bêl yn ffyrnig at y wal er mai'r to sy'n dioddef waethaf yn aml iawn. Dechreuir chwysu a chwerthin ac ar ôl ysbaid, eir ati i ddilyn y "circuit" sydd wedi ei baratoi yn faleisus ofalus gan athro ifanc, sydd ei hun, gyda llaw, yn dioddef o ormodiaeth modfeddi o gwmpas ei ganol. Amserir pob gweithgaredd ganddo yn ofalus i sicrhau na fydd neb yn llwyr lwyddo yn ei ymdrechion. Wedi iddo sicrhau wal gadarn i bwyso arni, gwisga ryw wên fileinig o gwmpas ei fwstas gogleddol gan weiddi ambell air o anogaeth neu o galondid i'r trueiniaid trist sy'n bwldagu a phesychu eu ffordd dros far a mainc. Daw amser y cylchdaith i ben ar ôl pedair munud (neu rywle o gwmpas hynny) mwyaf uffernol yr wythnos, ond mae pawb wrth eu bodd pan sylweddolant eu bod o ganlyniad i'r holl chwys ryw hanner owns yn bertach na'r wythnos cynt.

Ceir gêm o bêl droed neu bêl rwyd ar ôl hyn i gyd a rhaid dweud fod llawer o'r criw brwd yn gwneud eu gorau glas i wireddu'r hen ddihareb Gymraeg — "Y peth pwysicaf mewn bywyd yw ennill, does dim ots sut"! Rhyw fath o gawod wedyn, a thua naw o'r gloch ymlusga rhyw bymtheg o ddynion iach yr olwg yn araf i'r Radyr Arms i drafod anturiaethau'r noson dros un peint bach o siandi.

Os ydych chi rywle rhwng y 35 a'r 60 oed, yn teimlo fel hen ŵr 80 mlwydd oed, ac yn ysu am deimlo fel hogyn, neu grwtyn neu rocyn neu gog ugain oed, beth am ymuno â dosbarth cadw'n heini ysgol nos Radyr am 7.00p.m. bob nos Lun? Bydd croeso i chi i gyd yno. Gyda llaw, wedi'r ddeddf newydd yn gwahardd gwahaniaethu rhwng benyw a gwryw (fel petai!), rwy'n siwr y rhoddir ystyriaeth fanwl i geisiadau gan fenywod am gael ymaelodi!

EIN GOHEBYDD CADW'N HEINI.



# TUDALEN Y DYSGWYR

*Braf ydy cael darn yn wythnosol yn* **Y Cymro** *ar gyfer y dysgwyr sy'n rhoi gwybodaeth am gyrsiau drwy'r wlad. Tybed faint o ddysgwyr Caerdydd sy'n prynu'r* **Cymro**'*n gyson? Rydw i'n siwr y byddech yn gallu deall llawer iawn o'r papur yma ac y mae digon o luniau i chi weld ynddo i'ch helpu i ddeall. Diolch yn fawr i Dan Lyn James o Aberystwyth am ddechrau'r golofn bwysig yma yn ein papur cenedlaethol.*

## NEWYDDION

### DISGO DYSGWYR

*Mae Cymdeithas Dysgwyr y De-Ddwyrain wedi trefnu ei Disgo a Chabaret cyntaf yn y District Club, Pontypridd ar y 27ain Chwefror. Gobeithio ei bod wedi bod yn noson lwyddiannus. Mae digon o gyfle i ddysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg yn ardal Pontypridd. Os galwch chi yn y Llanofer Arms noson fe welwch chi lawer o Gymry Cymraeg yn sgwrsio gyda'r dysgwyr brwd. Beth am alw i fewn? Dywedodd rhywun mai ateb Pontypridd i'r Conway yng Nghaerdydd ydy'r Llanofer Arms — neu fel arall, dydw i ddim yn siwr.*

### Y GARREG FILLTIR

*Ydych chi wedi gweld "Y Garreg Filltir" ar y teledu? Rhaglen i'r dysgwyr ydy hon wrth gwrs ac os ydych chi'n meddwl eich bod chi a dau o'ch ffrindiau yn ddigon da i gystadlu ysgrifennwch at Deledu Harlech, Pontcanna, Caerdydd.*

### ENW I'W GOFIO

*Clywais am athro yng Nghaerdydd yn dweud wrth ei ddosbarth Wlpan ei bod yn bwysig iawn, os am ddysgu gair newydd, i'w ddweud yn uchel drosodd a throsodd a dyma un ferch ifanc yn y rhes flaen yn dweud, "Gwilym", "Gwilym", "Gwilym". Ie wir, gair da i ddysgwyr ei gofio!*

### CYRSIAU

*Dyma fanylion i chi am gwrs wythnos newydd yng Ngholeg Iwerydd, Llanilltud Fawr, Gorffennaf 16-23 1976. Trefnir hwn gan yr Uned Iaith ac Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol. Pris y cwrs, yn cynnwys llety, yw £30. Os ydych am deithio bob dydd, y pris yw £2 am gofrestru, hyfforddiant £3, a chinio a swper £2 y dydd. Os oes diddordeb gyda chi yn y cwrs yma, ysgrifennwch ar unwaith at Yr Uned Iaith, Brook St, Trefforest, Pontypridd.*

*Bydd cwrs Coleg y Brifysgol, Bangor o Orffennaf 12-24. Pris hwn, yn cynnwys llety, yw £84. Ysgrifennwch am fanylion pellach at: Ysgrifennydd yr Ysgol Haf, Coleg y Brifysgol, Bangor, Gwynedd.*

*O son am gyrsiau, cafwyd dros 100 o geisiadau am le ar y cwrs penwythnos yn y Dyffryn, Mawrth 19.*

### YSGRIFENNWCH

*Cofiwch ysgrifennu am unrhyw beth diddorol sy'n digwydd yn y byd ail-iaith, ata'i neu at y golygydd — byddwn yn falch iawn o dderbyn unrhyw wybodaeth. Cofiwch am y gystadleuaeth Stori Fer hefyd — dyddiad cau Mawrth 7fed — felly, brysiwch!*

JOHN ALBERT

*Timau BBC Cymru a Theledu Harlech ar gyfer CARREG FILLTIR (Mawrth 20, HTV Cymru, 6.30p.m.).*







## Pan Ddêl Mai

Cynhelir cyngerdd mawr nos Sadwrn, Mai 22 yn Theatr Reardon Smith Caerdydd gan Ysgol Feithrin Rhiwbeina. Bydd y noson yn cychwyn am 7.30p.m. a chewch gyfle i glywed Cantorion Ardwyn, Cor Meibion o'r Almaen, Richard Rees (Bass), Iwan Davies (Tenor) a Lisa a Gwyn Erfyl yn canu penillion. Dewch yn llu — mae'r elw i gyd i Ysgol Feithrin Rhiwbeina.

## cornel y beirdd

### DYSGWYR AR DÂP

*Ffrwydrad sillafau*
*Pendant*
*Clir*
*Herciog i ddechrau*
*Ond ifanc a dewr*
*Trydar trydan fel trais*
*Hyn yw'r bygythiad*
*Pob eiliad*
*Mae rhywun yn dechrau dallt*

JOHN EMYR,
Aberystwyth.

# NEWYDDION CWM RHYMNI

### AELWYD CAERFFILI

Cynhaliwyd noson goffi yn yr Aelwyd yn ddiweddglo i ymgyrch rhai o'r aelodau i gasglu arian ar gyfer Cymdeithas Plant Awtistaidd De Cymru. Bu Sian Morgan, Lynne Hughes, Rhian Close, Rhian Hughes, Hywel Tilley a Geraint Bowyer yn ymweld yn gyson â chapeli'r cylch i gynnal cyfarfodydd nos Sul a chasglwyd canpunt i'r mudiad hwn. Cyflwynwyd y siec i Mrs Dwynwen Daly, Llywydd y Gymdeithas. Esboniodd hithau eu bod yn ceisio gwella'r cyfleusterau yn Ne Cymru ar gyfer y plant anffodus hyn a'i fod yn galondid iddi weld brwdfrydedd ymarferol ymysg pobl ifainc yr Urdd yng Nghaerffili.

### CYMDEITHAS GYMRAEG CAERFFILI

Disgwylir R. Alun Evans i gynnal noson yn y Gymdeithas ar Fawrth 22 am 7.15p.m. yn festri Bethel. Ac yna, ar Ebrill 5, yng nghyfarfod olaf y tymor, bydd bois y BBC yn recordio rhaglen yn y gyfres 'Hawl i Holi'. Gofynnir i aelodau'r Gymdeithas ddarparu cwestiynau ymlaen llaw erbyn Mawrth 22, fan pellaf.

### CWM YR ABER

Cafwyd hwyl arbennig yng nghyfarfod diweddaraf Cymdeithas Gymraeg Cwm yr Aber gyda noson ysgafn dan ofal athrawon Ysgol Ifor Bach yn cynnwys eitemau amrywiol gan Mary Parry, Sian Parry, Menna Jones, Moi Parri, Gwyn Jones a'r brifathrawes, Mrs Moyra Davies. Diolchwyd i'r cwmni ar ran y Gymdeithas gan Mr Jack Williams a llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Tom Hughes.

### CYLCH DYSGWYR

Roedd yr oruwch-ystafell yng Ngwesty'r Goodrich, Caerffili, dan ei sang i fwynhau noson lawen a threfnwyd gan ddysgwyr y cylch. Arweiniwyd gan yr arch-ddigrifwr John Albert Evans a chafwyd cyfraniadau i'r hwyl gan Dewi ap Rhobert i gyfeiliant ei gitar, Barbara Matthews a ganodd yn ddigyfeiliant, a John Edwards a ddangosodd ei ddawn anghyffredin i gadw ar ei gof nifer o ganeuon gwerin ardal ei fachgendod yn Sir Feirionnydd. Cyfranwyd yr elw ar y noson i Gronfa Adeiladau Aelwyd Caerffili.

### CWM RHYMNI

Yn dilyn ad-drefniant llywodraeth leol ym mis Ebrill 1974 penderfynodd y Cyngor a sefydlwyd i wasanaethu Cwm Rhymni mai Cyngor Ardal Cwm Rhymni fyddai'r ffurf Gymraeg briodol ar gyfer y Cyngor hwnnw — a hynny ar ôl llawer o ddadlau brwd ar y pwnc.

Cadarnhaodd y Cyngor yn ddiweddar ei fod o blaid yr egwyddor o ddwyieithrwydd ond, yn ymarferol, nid oedd o blaid defnyddio'r ffurf hon — nag unrhyw air Cymraeg arall — ar ochrau bysus nag ar bennawdau llythyrau nag mewn unrhyw ffordd arall. Rhyfedd o fyd!


Hen Lyfrau yn eisiau

HEN NEU AIL-LAW
HEFYD CYLCHGRONAU A PHAPURAU

Gallwn alw i'w gweld

SIOP Y PETHE
ABERYSTWYTH
7120


# Perfformio Dramau Newydd



JOHN OGWEN



MAUREEN RHYS

Bu'n hen gŵyn yng Nghymru ers amser mai gwendid pennaf theatr Gymraeg gyfoes yw prinder dramau gwreiddiol da i'n cwmnïau eu perfformio. Erbyn hyn, dichon y daeth tro ar fyd, a'r dramau bellach yn pentyrru yn nesgiau'r dramodwyr ac yn hel llwch heb eu llwyfannu.

Dyna'r argraff a roddwyd, p'run bynnag, yng nghyfarfod diwethaf Cymdeithas Lenyddol Caerdydd (nos Fercher, Chwefror 11eg yn Theatr Bute) pan gafodd yr aelodau gyfle i fwynhau noson eithriadol o ddiddorol yng nghwmni'r actorion John Ogwen a Maureen Rhys. Cyflwynwyd ganddynt raglen o ddarlleniadau o dair drama Gymraeg newydd sbon (heb eu perfformio na'u cyhoeddi hyd yn hyn), a pherfformiad o ddrama un act gan yr awdur o Sais, James Saunders, wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg gan John Ogwen.

Ar ôl sylwadau syfrdanol John Gwilym Jones ar ddramau buddugol Eisteddfod Cricieth y llynedd (yn gorffen drwy iddo geisio ei gyfiawnhau ei hun yn bathetig am gondemnio'r ddwy ddrama gyntaf i limbo dramau y mae'n rhy "fentrus" eu perfformio yn y Gymru sydd ohoni, gyda'r geiriau anfarwol, "Rhagrith, ie, ond dyna fo"), roedd dyn wedi anobeithio gweld y dramau hyn ar lwyfan fyth. Diolch am y cyfle hwn felly i gael cipolwg arnynt: *Geraint Llywelyn* (William Lewis), y ddrama fuddugol, yn gelfydd ei deialog, yn llifo'n rhwydd ac yn gwbl afaelgar — roedd dyn yn blysu am gael gweld a chlywed mwy. Da fyddai gweld y ddrama ail fuddugol sef *Y Cadfridog* (Michael Povey) ar lwyfan hefyd; rhaid cyfaddef na ddeallais i ryw lawer o'r araith a gyflwynwyd i ni, ond hwyrach mai dyna'r pris y mae'n rhaid ei dalu am gymryd tameidiau allan o'u cyd-destun mewn drama gyflawn.

Arbennig o ddiddorol oedd drama'r trydydd dramodydd arobryn, Bernard Evans. Nid ei ddrama eisteddfodol oedd hon, ond drama newydd sbon eto, yn delio ag effeithiau'r Rhyfel Cartref yn Sbaen ar deulu yng Nghymru. Er bod y cefndir yn gynfas eang iawn, mae'n un cwbl berthnasol i ni heddiw yn wleidyddol ac yn hanesyddol ac ar lefel bersonol, ymddengys y ddrama hon yn ymdrech lew i ddelio â digwyddiad a gafodd effaith mor drawmatig ar lawer unigolyn a llawer teulu yng Nghymru. Ond unwaith eto, dim ond peri i dyn flysu am fwy a wnai cyflwyno'r darn byr a gawsom yn ystod y noson.

Cwestiwn neu ddau cyn gorffen. Yn gyntaf, ble mae'n cwmniau amatur Cymraeg ni (yn enwedig yma yng Nghaerdydd) a allai berfformio peth o'r toreth gwaith newydd yma sy'n cael ei anwybyddu gan gwmniau proffesiynol ar hyn o bryd? Yn ail, cwestiwn i'r Gymdeithas Lenyddol ei hun: beth am noddi cynhyrchiad proffesiynol o rai o'r dramau hyn, ar ôl i chi ddeffro'n chwilfrydedd drwy roi tamaid i aros pryd? Diolch yn fawr i John a Maureen am godi ymyl y llen fel hyn; braf fyddai eu gweld hwy yn ôl yng Nghaerdydd cyn bo hir gyda chwmni i berfformio'r dramau hyn yn eu crynswth.

GOHEBYDD ARBENNIG

# Beth yw Cymro ?

Casgliad siomedig na wna lawer i daflu goleuni ar yr ymwybyddiaeth Gymraeg a Chymreig yw *The Penguin Book of Short Stories* a gyhoeddwyd ddiwedd mis Chwefror. Mae Alun Richards, golygydd y gyfrol, wedi ei gyfyngu ei hun i ragair byr lle mae'n trafod nodweddion y stori fer Gymreig yn fras iawn; cawn yr argraff y rheolwyd ei ddetholiad ef gan yr hyn a adawyd allan gan olygyddion eraill. Beth bynnag am hynny, y cymhwysterau a nodir ar gyfer cynnwys stori yn y casglaid hwn yw, "The place is Wales and the time is this century". Hwyrach mai eangder y diffiniad hwn sy'n gyfrifol am ddiffyg naws arbennig y gyfrol hon yn ei chrynswth. Wrth ddarllen y casgliad hwn ni cheir unrhyw wir deimlad fod y profiad Cymreig yn ddim amgen na'r profiad Seisnig — does bosib fod hyn yn wir.

Daliodd rhai o'r straeon unigol fy sylw. Y mae i stori Glyn Jones, *The Golden Pony* ansawdd delynegol, dyner sy'n gwbl unigryw, ac y mae stori Dylan Thomas, *Extraordinary Little Cough* yn nhraddodiad gorau Thomas ei hun o'r hanesyn bachlliwgar. Hoffais yn arbennig stori Gwyn Thomas, *The Teacher* a oedd yn dawel deimladwy heb ddim o'r sentimentalrwydd hiraethus hunan-ymwybodol y byddaf yn ei gysylltu â'r awdur hwn fel arfer; stori Alun Richards ei hun hefyd, *Hon. Sec. (R.F.C.)* lle creir cymeriadau mewn dull caboledig dros ben. Diddorol yw nodi po ddiweddaraf y stori, lleiaf Cymreig y thema. Ymddengys y rhan fwyaf o'r awduron yn ddigon bodlon i osgoi archwilio beth yw bod yn Gymro/Gymraes a byw yng Nghymru heddiw.

Fy mhrif feirniadaeth ar y gyfrol hon yw'r diffyg nodiadau bywgraffyddol ynglŷn â'r awduron; ymddengys hyn i mi yn ddiffyg mawr sy'n amharu ar bleser dyn wrth iddo ddarllen. (Mae cymaint o gyfenwau Cymreig yr un fath fel bod angen gwybodaeth fanwl ar y darllenwr er mwyn iddo allu gwahaniaethu rhwng y gwahanol awduron a'u hadnabod). Roeddwn hefyd yn gweld eisiau teitlau Cymraeg gwreiddiol y straeon a gyfieithwyd. Mae'r diffygion hyn yn nodweddiadol ar un wedd o lacrwydd y dethol yn y casgliad hwn Yn wahanol i gyfrol fel yr *Oxford Book of Welsh Short Stories* sydd wedi hen ennill ei phlwyf bellach, cyfrol anghofiadwy yw hon rhywfforddd.

G.M.A.

*The Penguin Book of Welsh Short Stories. Pris 80c.*

## HYSBYSEBU

Un o brif amcanion *Y Dinesydd* yw darparu gwybodaeth ynglŷn â digwyddiadau Cymraeg a Chymreig yng Nghaerdydd; i'r pwrpas hwn y cychwynwyd y Calendr misol. Yn anffodus, erbyn hyn mae cymdeithasau o bob math yn disgwyl cael cryn dipyn o sylw i'w gweithgareddau ymlaen llaw *heb* hysbysebu. Mae hysbysebu yn *Y Dinesydd* (sef prif gynhaliaeth y papur) yn mynd o ddrwg i waeth ac felly mae'n rhaid i ni ddweud, o hyn ymlaen, os byddwch am gyhoeddusrwydd i gyfarfodydd ac achlysuron arbennig, rhaid gwneud hynny drwy hysbyseb. (Byddwn yn dal i nodi pob digwyddiad y cawn wybod amdano yn y Calendr.) Gobeithio y bydd pawb yn deall ein rhesymau dros orfod dweud hyn.

# LLYFRAU NEWYDD

## Yr Alltud Trist

Am wn i, y tro cyntaf i mi glywed am y bardd Eingl-Gymreig T.H. Jones oedd pan ddarllenais ddetholiad o'i gerddi yn y flodeugerdd *The Lilting House* (golygwyd gan John Stuart Williams a Meic Stephens). Unigrwydd a hiraeth oedd prif themau'r cerddi hynny, unigrwydd a hiraeth alltud yn byw yn bell o wlad ei eni. Yn y gerdd *Back* er enghraifft, mae'r bardd yn gofyn i'w hun a fynn ddychwelyd i Gymru:

*"Back to the shamed memories of Glyn Dŵr*
*And Saunders Lewis's aerodrome*
*And a match at Swansea?*

*Of course I'd go back if somebody'd pay me*
*To live in my own country*
*Like a bloody Englishman*

*But for now, lacking the money,*
*I must be content with the curlew's cry*
*And the salmon's taut belly*

*And the waves, of water and of fern*
*And words, that beat unendingly*
*On the rocks of my mind's country."*

Yn y gerdd *Land of My Fathers*, mae'r bardd yn gorffen drwy ddweud,

*"...And know that I can never be content*
*In this or any other continent*
*Until with my frosty fathers I am at last*
*Back in the old country that sings and kills."*

Ond pwy oedd y bardd trist hwn? Wyddwn i ddim yn iawn o hyd nes cael y gyfrol newydd hon i'm dwylo, sef traethawd ar waith Harri Jones gan Julian Croft yn y gyfres gampus *Writers of Wales*.

Ganed a magwyd y bardd yng Nghwm Crogau ger llaw Llanfair ym Muellt ac er bod y teulu ar ochr ei dad yn Gymry Cymraeg, Saesnes oedd ei fam ac ni chafwyd gair o Gymraeg ar yr aelwyd. Yn ôl Croft, effeithiodd hyn yn ddwys ar y bardd gan beri ynddo euogrwydd ar hyd ei oes am iddo fod yn fardd o Gymro a ysgrifennai yn Saesneg. Ym 1959, trodd yr alltudiaeth feddyliol hon yn alltudiaeth gorfforol pan symudodd i fyw yn Awstralia lle bu farw ym 1965 yn ddim ond 43 mlwydd oed.

Mae'r cerddi'n adlewyrchu brwydrau mewnol gŵr a ymladdodd yn ddewr yn erbyn anobaith y cyflwr dynol: dioddefai o iselder ysbryd llethol yn ei flynyddoedd olaf, roedd ganddo broblemau personol ac aeth i yfed yn drwm. Ond eto, roedd hyn oll yn gyfrwng creu: ei stoiciaeth yn wyneb y cwbl, ei hiraeth a'r holl ansicrwydd cynhenid a ddeillia o fod heb wreiddiau. Mae rhai o'r cerddi'n llefaru'n huawdl iawn ar gyfyng-gyngor y Cymro di-Gymraeg; mae eraill yn trin yn ehangach â holl broblem diffyg gwreiddiau yn yr oes sydd ohoni.

Yn ngeiriau Julian Croft, wrth iddo gloi'r gyfrol hon:

*"In his synthesis of Eden, Wales, love and exile, T.H. Jones constructed an impressive vision of the deracinated post-war man attempting to find a permanent and satisfying myth which could produce a state of peace, contentment and love to calm the storms of war and personal despair. Harri Jones did not find it — his search was cut off too soon — but the record he left of his quest through states of despair, depression, joy and love will give his readers possibly one of the best portraits of mid-twentieth century problems of national and personal identity, individual purpose, and religious belief."*

Arweiniad da iawn i waith bardd hynod deimladwy a diddorol sy'n haeddu cydnabyddiaeth tipyn ehangach nag a roddir iddo ar hyn o bryd.

*T.H. Jones gan Julian Croft. Cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru. Pris: £1.00.*

## Gwnewch Degan, Gwnewch Blentyn yn Hapus a Chynorthwywch LEPRA

Mae LEPRA — y gymdeithas Brydeinig sy'n cynorthwyo Gwahangleifion — yn cynnal cystadleuaeth wneud teganau unwaith eto er cynorthwyo eu hymdrech fyd-eang yn erbyn y gwahanglwyf.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i bawb yn y Deyrnas Unedig, a gellir defnyddio unrhyw fath o ddefnyddiau. Yr hyn y byddwn ni'n edrych amdano fydd cyfuniad o grefftwaith a dyfeisgarwch.

Cynhelir y gystadleuaeth ar sail ranbarthol, gyda chategoriau ar gyfer y rheini sydd o dan ddeunaw ac ar gyfer dinasyddion hyn. Danfonir y teganau buddugol o bob rhanbarth i Lundain wedyn ar gyfer y beirniadu terfynol ym mis Medi 1976. Dylai ceisiadau gyrraedd eich Trefnydd Rhanbarthol erbyn Gorffennaf 31ain.

Cyhoeddir enw'r buddugwr erbyn diwedd mis Tachwedd 1976, yn rhifyn yr hydref o Lepranews.

*Cysylltwch â'ch Trefnydd Rhanbarthol yn awr, a gwnewch yn siwr fod eich cyfeillion a'ch cymdeithasau yn ymuno yn y fenter. Neu danfonwch am fanylion pellach at:*

*John Edwards*
*LEPRA*
*17 Mill Street*
*Tonyrefail*
*Morgannwg*

---

**FFIDILAU, FIOLAU, SODDGRYTHAU, A THANNAU BAS.** Yn eisiau i fyfyrwyr. Ysgrifennwch gyda manylion llawn i focs rhif 05.

Y Dinesydd
55 Heol Gadeiriol Isa
Caerdydd CF1 8LW

---

# Priodas

*DARLUN FFENESTR — "PHYSIOGNOMICK CAUDLE PORTRAITS". Daw hwn, a'r cerdyn Ffolant ar dud. 1, o Gasgliad John Johnson ac fe'u hatgynhyrchir drwy ganiatad Curadwyr Llyfrgell Bodleian, Rhydychen. O arddangosfa Cyngor Celfyddydau Cymru, PRIODAS.*




---

*Da clywed fod ORIEL yn ail-agor er gwaethaf ofnau rhai ohonom!*




---

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

Mae'r Siop Lyfrau'n ail agor ar Fawrth 8fed

Dalier sylw — newidiwyd yr oriau agor:

9.30 - 6.00 Llun—Gwener
9.00 - 6.00 Sadwrn

Darlleniadau awr ginio:
Gwyn Thomas (Bangor)
25ain o Fawrth 1 - 2 p.m.

CROESO I BAWB

# Tra Bo Dau

Offrwm cyntaf Cwmni Theatr Cymru wedi'r Ŵyl oedd drama hyfryd Charles Dyer, *Rattle of a Simple Man*, wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg gan W.S. Jones fel "Persi Rygarug" (Theatr Sherman, Caerdydd, Chwefror 5-7). Dameg fodern yw hon am butain sy'n mynd â bonwr swil iawn adre gyda hi, bachgen sydd i lawr yn Llundain ar drip penwythnos i weld gêm. Wrth i'r ddrama fynd rhagddi, dysgwyn nad yw'r cymeriadau hyn mewn gwirionedd yr hyn a ymddangosant yn y lle cyntaf. Mae Cyrenne yn dyfeisio straeon rhamantus i guddio bryntni ei bywyd beunyddiol, ac y mae Persi'n esgus fod ganddo gariadon a diddordebau awr-hamdden di-ri er cuddio ei unigrwydd llethol ef ei hun.

Yn y bôn, dyma ddau berson unig sy'n dod i adnabod unigrwydd ei gilydd ac ymateb iddo yn ystod hynt a helynt un noson. Ychydig sy'n digwydd yn y ddrama — a wnaiff Persi, sy'n wyryf, gysgu gyda Cyrenne neu beidio? — cwestiwn sy'n dal heb ei ateb ar ddiwedd y ddrama. Yr hyn sydd mor afaelgar yw datblygiad y berthynas rhwng y ddau gymeriad. Er mai amrywiaeth ar thema "the tart with the golden heart" yw'r ddrama, rhydd Dyer gymaint o gig a gwaed i'w gymeriadau nes eu gwneud yn gwbl gredadwy; yn raddol, deuwn i allu dychmygu pa fath o fywyd y mae'r bobl yma'n ei fyw.

Yr unig le y gwelir y ddrama'n torri i lawr yw'r fan lle ymwthia brawd Cyrenne i mewn i rediad y stori. Dyfais i egluro gwir gefndir Cyrenne i'r gynulleidfa ydyw hyn, ond cyflwynir cymaint o syniadau amherthnasol a melodramatig (e.e. llosgach) pan ymddengys y cymeriad hwn nes i'r ddrama suddo mewn cors o theatrigrwydd a chymer beth amser i'r prif chwareuwyr ail-sefydlu'r awyrgylch.

Roedd cyfieithiad Wil Sam yn ffyddlon iawn i'r gwreiddiol, a thanlinellwyd y gwahaniaeth rhwng y ddau gymeriad drwy roi iddynt dafodieithau ac acenion gwahanol (Persi yn ogleddol swil a naïf, a Cyrenne yn ddeheuol haerllug a phrofiadol). Hwyrach y byddai wedi bod yn werth mynd gam ymhellach, a mynd â'r syniad hwn i'w bendraw rhesymegol drwy symud cefndir y ddrama o Lundain i Gaerdydd, a gosod cartref Persi yng Nghricieth yn hytrach nag ym Manceinion, gan fod cymaint o *nuances* y ddrama yn deillio o gefndir penodol y cymeriadau. Serch hynny, ni leihawyd dim ar effaith y cynhyrchiad drwy gadw'r lleoliadau gwreiddiol.

Yn y cynhyrchiad hwn, llwyddai set lwyfan glyfar i gyfleu yn berffaith fflat drawiadol o sâl a di-lun yn Llundain; rhaid hefyd llongyfarch Lois Stewart am wneud dillad cystal i Cyrenne: roedd llawer ohonynt, a llwyddasant i ddal yn union beth sydd yn awr i ni yn flas cyfnod y 60au.

Rhoddodd Sharon Morgan berfformiad coeth a manwl fel Cyrenne. Teyrnged iddi hi a Gwyn Parry yw'r ffaith na throdd y ddeialog faith hon (rhyw ddwy awr a hanner o hyd) yn ddiflastod yn unlle. Llwyddodd i gyfleu holl agweddau gwahanol cymeriad cymhleth y ferch hon gan newid ei hwyliau yn gredadwy o ddisymwth. Gwnaeth Gwyn Parry Persi yn berson annwyl dros ben ac roedd ei wên swil, anghysurus yn bleser i'w gweld. Cyfarwyddwr y ddrama oedd Wilbert Lloyd Roberts a brofodd unwaith eto fod Cwmni Theatr Cymru yn gallu cynhyrchu gwaith o'r radd flaenaf.

Ms BLODYN



*SHARON MORGAN (Cyrenne) a GWYN PARRY (Persi).*
Darlun Cwmni Theatr Cymru.

---

# Dewch i'r Ffair!

**Cynhelir Ffair Wanwyn Ysgol Feithrin Ystum Taf ddydd Sadwrn Mawrth 13 yn Ysgoldy Eglwys All Saints, Gogledd Llandaf am 2.30p.m. Ysgol i ddysgwyr yw hon bron yn gyfangwbl a'r rhieni bron i gyd yn ddi-Gymraeg ond yn hynod o frwdfrydig. Y llynedd, llwyddwyd i godi dros gan punt yn y ffair ond siom i'r trefnwyr oedd y ffaith mai ychydig iawn o Gymry Gymraeg a ddaeth i gefnogi'r ymdrech er bod nifer fawr yn byw yn y cylch hwn. Dewch i'r ffair ddydd Sadwrn nesaf, da chi — mor braf fyddai hi i'r Cymry di-Gymraeg y tu ôl i'r stondinau gael clywed ychydig o Gymraeg o'u blaenau nhw!**

# O'r Post

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Hoffwn wybod sut y byddai Sian yn sillafu 'peintiadau' (gweler Colofn Sbectol Sian, Y Dinesydd Ionawr/Chwefror). Mae hi'n berchen ar gopi o Eiriadur Termau Gwasg Prifysgol Cymru. Felly eled ar unwaith at y meddyg llygaid — mae'n hen bryd iddi newid ei sbectol!*

*Yn gywir,*

*E. DAVIES,*
*Llandaf, Caerdydd.*

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.

## CALENDR MAWRTH-EBRILL

**MAWRTH**

6 Clwb Tŷ Cymry **CYNGERDD MAWREDDOG** gyda Chôr Godre'r Aran. Theatr Reardon Smith 7.30p.m.
7 Yr Academi Gymreig (Adran Saesneg) **WRITING AS A CRAFT** Emyr Humphreys, Elaine Morgan, Leslie Norris a Glyn Jones mewn sumposiwm. Yr Arena, Theatr Sherman 8.00p.m.
8 Clwb Tŷ'r Cymry **"GWLAD TSEINA"** Mrs Olwen Walters 7.30p.m. Urdd Gobaith Cymru, Dosbarth Caerdydd **CHWAREUON IAITH** Canolfan yr Urdd.
10 Cymdeithas Lenyddol Caerdydd **Y DDRAMA HEDDIW** — arolwg ac arwyddion. Raymond Edwards, Pennaeth y Coleg Celf a Drama. Theatr Bute 8.00p.m.
13 Ysgol Feithrin Ystum Taf. **FFAIR WANWYN** Ysgoldy All Saints, Gogledd Llandaf 2.30p.m.
15 Clwb Tŷ'r Cymry **SEIAT GARDDIO** 7.30p.m.
16 Ysgol Feithrin Rhiwbeina **CYNGERDD** gyda Chôr Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd a Rhisiart Arwel (gitâr). Tŷ Maeth, 8.00p.m.
19 Cymrodorion Caerdydd **YMHEL A'R AWEN** gyda Gwyndaf, y Cyn-Archdderwydd Eglwys Dewi Sant.
22 Clwb Tŷ'r Cymry **LLWYFAN I GELL CAERDYDD**, Cymdeithas yr Iaith, 7.30p.m. Urdd Gobaith Cymru, Dosbarth Caerdydd **FFAIR** Canolfan yr Urdd.
29 Clwb Tŷ'r Cymry **NOSON O RECORDIAU** 7.30p.m.

**EBRILL**

3 **EISTEDDFOD GADEIRIOL BRO MORGANNWG** yn Neuadd y Methodistiaid, Dinas Powys, 6.30p.m. Rhaglenni oddi wrth Maxwell Evans, 86 Heol Redlands, Penarth.
5 Clwb Tŷ'r Cymry **BYWYD A GWAITH T ROWLAND HUGHES** Mrs E Anthony Davies 7.30p.m.
6 Merched y Wawr, Caerdydd. **CLEFYDAU'R CYMALAU** Dr Peter Williams. Canolfan yr Urdd 7.30p.m.
9 Ysgol Feithrin y Waun a'r Cylch. **NOSON O FFWLBRI EBRILL** gyda Eirwyn Pontsiân a'r Diliau. Bwydydd Americanaidd. Tŷ Maeth, 8.00p.m.

# Gŵyl Dewi

Dathlwyd Gŵyl Dewi mewn dull teilwng a thraddodiadol yma yng Nghaerdydd gyda Noson Lawen fawr yn Theatr Sherman nos Sul ddiwethaf. Yn draddodiadol eto, bu peth dryswch ynglŷn ag amser dechrau'r noson; rhaid ymddiheuro i bawb a ddaeth yno erbyn wyth o'r gloch am i'r *Dinesydd* eu camarwain!

Roedd y noson yn llawn amrywiaeth ac er iddi fynd ymlaen yn hwyrach na'r bwriad, roedd yn amlwg fod y rhan fwyaf wedi eu mwynhau yn fawr gyda rhai aelodau gobeithiol o'r gynulleidfa yn dal i ddisgwyl, am ugain munud i unarddeg, i weld y perfformwyr yn dychwelyd i'r llwyfan i wneud "spot" arall!

Nodwedd anarferol iawn yn y noson oedd eitem sylweddol gan Fyfyrwyr Coleg Celf a Drama Caerdydd a berfformiodd Rifiw yn ystod ail hanner y noson. Er i'rai ohonom ddisgwyl eitem ysgafn a doniol, roedd thema'r cyflwyniad yn gwbl o ddifrif, yn ymdrin ag unigrwydd, a chreulondeb dyn wrth ddyn; tanlinellu'r creulondeb a wnai'r rhan fwyaf o'r doniolwch er nad oedd hynny'n atal neb rhag chwerthin yn iach. Ceid rhai golygfeydd ynddi na welwyd mo'u bath ar lwyfan Cymraeg o'r blaen — a diolch i'r drefn na thorrodd neb mo'i gorn gwddw yng ngolygfa'r syrcas, ddweda'i! Diolch yn fawr i'r myfyrwyr am gyflwyniad mor raenus a phroffesiynol o syniadau diddorol a gwreiddiol; gobeithio y cawn gyfle arall i'w gweld yn perfformio yn y dyfodol.

O blith yr eitemau eraill, rhaid enwi Clocswyr ifainc Ysgol Gymraeg Caerffili a roddodd berfformiad bendigedig ac ennill calon y gynulleidfa'n llwyr. Eitem arall a gafodd wrandawiad astud oedd datganiad Gwyndaf Roberts ar y delyn deires hynafol. Hwyrach mai dyma gyfle cyntaf y rhan fwyaf ohonom i glywed y gŵr ifanc hwn (disgybl i Nansi Richards) sydd bellach mor hyddysg yn yr hen grefft hon; brysied yn ôl i Gaerdydd i berfformio eto.


Diolch yn fawr i'r holl artistiaid a gyfrannodd grymaint i'r noson: i Cwrwgl Sam, Côr Penillion Aelwyd Caerdydd (a braf iawn gweld Nan Jones yn ôl yn eu plith), i Neli, mor ddoniol a phersain ag erioed ar eu hymweliad blynyddol â Chaerdydd, ac i'r Triban — hyfryd eu gweld hwythau'n perfformio yn Gymraeg unwaith eto. Os caniateir diolch i un yn arbennig o blith y doniau oll, Andrew Jones yw hwnnw, y digrifwr ifanc a arweiniodd y noson gyda'r fath hwyl.

Diolch hefyd i Theatr Sherman am eu cydweithrediad caredig arferol — yn enwedig i Peter Woodham, y cyfarwyddwr technegol ac i Branwen Iorwerth, rheolwr hynaws a diwyd y theatr. Yn wyneb yr holl garedigrwydd hyn, gyda'r artistiaid oll yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim er mwyn codi arian i Gronfa'r Mil o Filoedd, trueni na fase'r theatr wedi bod yn orlawn — roedd lle i ryw gant arall yno, o leiaf. Ond dyna ni, mae mis Chwefror wedi bod yn fis tu hwnt o brysur yng Nghaerdydd — a hwyrach ein bod bellach yn gweld gwireddu'r hen air, "Gormod o bwdin dagith gi"!

# Croeso i'r Ficer Newydd

Croeso i Gaerdydd i Ficer newydd Eglwys Dewi Sant, sef y Parch Leslie Evans, Burry Port, un o Hoelion Wyth yr enwad. Mae Mrs Evans (sy'n enedigol o Sir Aberteifi, fel nifer helaeth o gynheiliaid Cymreictod Caerdydd!) yn arbenigwraig ar ddysgu canu'r piano; gyda'r prinder presennol o athrawon piano yng Nghaerdydd, mae mawr ddiwgyl amdani hithau yma! Croeso iddynt ill dau, a gobeithio y bydd eu harosiad yng Nghaerdydd yn gyfnod hapus a ffrwythlon.

D.S. Sefydlir y Parch. Leslie Evans yn Eglwys Dewi Sant nos Wener, Mawrth 12fed am 7.00p.m. Bydd cwpanaid o de a chyfle i groesawu'r Ficer newydd yn y neuadd wedi'r gwasanaeth.




Fyny Fan'na

i chi'r plant bob dydd Mawrth

am 4.25p.m.

gan Adran Blant

HTV CYMRU WALES

# Ysgolion Meithrin De Morgannwg

Carwn dynnu sylw darllenwyr *Y Dinesydd* at waith Mudiad Ysgolion Meithrin yn Ne Morgannwg. Prin ddeufis sydd 'na er pan apwyntiwyd fi yn Swyddog Datblygu dros Dde Morgannwg. Rwyf wedi treulio deufis amrywiol iawn, difyr ac wedi cael ambell i sioc.

Y mae un cylch ar bymtheg yn y sir a thua thri chant o blant yn eu mynychu. Mae lled obaith y gellir agor dau neu dri chylch arall. Ond o gofio poblogaeth y rhan yma o Forgannwg, mae'n frawychus bod y gyfran o blant sydd am addysg ddwyieithog mor arswydus o isel.

Wedi dweud hyn, mae'r her yn enfawr. Yr hyn sy'n fy nharo yw bod gwaith y Mudiad yn gwahaniaethu cymaint o sir i sir. Yn ardaloedd gwledig Cymru prinder plant yw'r gri, ym mhentrefi Seisnig y De prinder athrawon a gofalwyr sy'n siarad Cymraeg a geir, ac mewn lle fel Caerdydd ar y stadau enfawr sydd yma, prinder adeiladau addas yw'r gri.

Fe garwn gynnal colofn gyson yn *Y Dinesydd* i roi hynt a helynt y gwahanol Gylchoedd Meithrin a son am eu hamrywiol weithgareddau. Er enghraifft, treuliais noson oer ryw fis yn ôl yn mynd o ddrws i ddrws yn ardal Sblot gyda Owen John Thomas a John Hywel yn canfasio am blant i Gylch Meithrin newydd Sblot. Synnais at yr ymateb — pawb yn gwrtais yn gwrando a neb yn wrthwynebus. Mae'n syndod faint o ewyllys da sydd at yr Gymraeg. Mae anwybodaeth — oes — a rhaid cael pobl fel Owen John Thomas ac eraill sy'n ddigon brwd i roi oriau o'u hamser i fynd o gwmpas i genhadu.

Os llwyddir i ehangu'r cylchoedd meithrin yn y Sir bydd raid cael athrawon ar eu cyfer. A ga'i apelio i unrywun o ddarllenwyr *Y Dinesydd* a fyddai'n barod i roi eu henwau a restr o athrawon posib gysylltu â mi? Byddwn yn ogystal yn hoffi cael cronfa o athrawon dros dro a fyddai'n barod i lanw bwlch pan fo athrawon y cylch yn sal o dro i dro.

Byddaf yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth yn y dyfodol.

SHÂN EMLYN

## YSGOL RHIWBEINA

Cynhelir Cyngerdd er budd Ysgol Feithrin Rhiwbeina yn Nhŷ Maeth ar Nos Fawrth yr 16eg o Fawrth am 8.00p.m. Rhoddir y Cyngerdd gan Gôr Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd (Arweinydd Nan Jones) a Rhisiart Arwel (gitâr). Pris y tocynnau fydd 50c yr un.

**Sain**

**TELYN CYMRU** — Sain 1023 D

Sêr byd Cerdd Dant Cymru wedi eu casglu ynghyd ar un record!

Meibion Menlli; Parti Aelwyd Caerdydd; Hogia'r Ddwylan; Glyn a Derfel; Gaynor ac Eleri; Merched Myrddin; Côr Telyn Teilo; Aled Lloyd Davies a Pharti'r Wenallt. Mae'r record arbennig hon yn y siopau yn awr!

**DYMA'R URDD** — Sain 61 E

"Cân Jên" a chaneuon eraill allan o ffilm yr Urdd gan EDWARD H. DAFIS — Record gyffrous arall gan grŵp mwyaf poblogaidd Cymru.

SAIN, Ffordd Llanllyfni, Penygroes. (Ffôn: 732)

# Noson Chapter

**Hwyrach bod dyn wedi gweld Rachel Howell Thomas yn chwarae gormod o'r Fam Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf nes bron anghofio actores mor eang ei doniau a mor wych yw hi mewn gwirionedd. Dyna fy mhrofiad i sut bynnag — a dyna bleser pur felly oedd gweld ei pherfformiad bendigedig yn Theatr Chapter ddechrau mis Chwefror.**

Doniau'r actores a'r cyfarwydd wedi eu cyfuno mewn un berfformwraig hudolus; dyna a roddwyd i ni wrth weld a chlywed Rachel Thomas yn adrodd straeon a roddai gyfle iddi fod yn lliaws o gymeriadau yn hytrach na chael ei chyfyngu i un rhan yn unig. Mae ganddi'r gallu prin i ddal cynulleidfa yng nghledr ei llaw, ei thywys fan yma a fan acw, a rheoli ei hymateb yn llwyr drwy ddim ond newid goslef ei llais. Pawb yn chwerthin hyd at ddagrau gyda'i chyflwyniad o stori Islwyn Williams, *Garddo*; ac yna, y dagrau'n llifo go iawn gyda stori Llynfi Davies, *Bili*. Dyna lle'r oedd y cantwr bach o'n blaen, yn fuddugoliaethus, yna — ar ei wely angau, a'i gyfaill yn ceisio cadw'r cryndod o'i lais, yna'n sydyn, diwedd y stori a Rachel Thomas yn crymu ei phen, gyda'r gynulleidfa yn dal o dan y swyn, yn un ochenaid ddistaw. Perfformiad na fynnwn fod wedi ei golli am y byd.

Rhan o Noson Werin Chapter oedd hyn, noson a drefnwyd gan Meredydd Evans er codi arian i Gronfa'r Mil o Filoedd ac er y gellir son am unigolion ac eitemau eraill — Pat Griffiths yn adrodd darnau o *Blodeuwedd* i gyfeiliant telyn Mona Meirion, a oedd yn fendigedig; W. J. Jones (gyda chymorth Mallt Anderson) yn curo'r tim arall yn y cwis traddodiadol mor ddigywilydd fel prin y cai'r holwr gyfle i agor ei geg i ofyn cwestiwn cyn y deuai atebion W. J. yn saethu'n ol! — hwyrach mai awyrgylch gartrefol, gysurus, lawen y noson oedd y nodwedd hyfrytaf amdani. Roedd yn noson llawer llai ffurfiol na'r rhan fwyaf o achlysuron y byddwn yn eu mynychu yng Nghaerdydd — mae'n sicr bod llawer o'r diolch am hynny i Ferched y Wawr (Caerdydd a'r Bontfaen) am droi'n adar y nos a darparu paned a lluniaeth ysgafn i bawb yn ystod yr egwyl hir a roddodd gyfle i bawb gael sgwrs a chlonc a thrafod y noson.

Diolch i bawb a wnaeth y noson yn un mor llwyddiannus: i Gôr Penillion Aelwyd Caerdydd ac i Mona Meirion; i Roy Saer am ei ddatganiad ar y llwyau ac am baratoi'r cwis; ac wrth gwrs, i Phyllis a Mered, unwaith eto — mae eu cymwynasgarwch hwythau'n ddiddiwedd.




# Y 'Steddfod yn Ddiogel

**Gollyngdod mawr oedd clywed gan swyddogion Cyngor Celfyddydau Cymru (*Dan Sylw*, Teledu Harlech, nos Fawrth Chwefror 24ain) nad oes argyfwng ariannol yn bygwth yr Eisteddfod Genedlaethol wedi'r cwbl. Mae'n siwr fod hyn yn gysur mawr i bawb a fu'n ymlafnio i geisio codi arian i Gronfa'r Mil o Filoedd dros y misoedd diwethaf yma yng Nghaerdydd — ac i bawb arall a gyfrannodd at y Gronfa mewn un ffordd neu'r llall.**

# Dafydd yn ôl yng Nghaerdydd

Wedi absenoldeb maith, cafodd trigolion Caerdydd gyfle y mis diwethaf i groesawu Dafydd Iwan yn ôl i lwyfannau'r brifddinas. Ie wir, wedi i ni weld ei golli ers rhai blynyddoedd bellach, dyma Dafydd yn ymddangos mewn dwy noson (dra gwahanol!) yng Nghaerdydd o fewn pythefnos i'w gilydd.

Sioe undyn Dafydd, *Llosgi'r Gannwyll* (gyda chymorth gitâr fâs a phiano Hefin Elis) a gafwyd nos Wener Chwefror 6ed yn Theatr Reardon Smith. Fe fu mawr ddisgwyl am gyfle i weld y noson hon yng Nghaerdydd ac ni siomwyd neb. Mawr yw ein dyled i John Albert a Tegwen Evans am drefnu'r wledd hon, a da oedd clywed i'r noson fod yn gyfrwng codi rhyw £150 i goffrau Ysgol Feithrin Llysfaen.

Hwyrach 'mod i'n mynd yn hen ond son am forio mewn atgofion! Fel y dywedodd rhywun yn ddiweddar, mae clywed rhaglen o ganeuon Dafydd fel troi dalennau hanes Cymru dros y deng mlynedd diwethaf a mwy, y cyffro a'r siomedigaethau, y gobeithion a'r rhwystredigau. Er i Ddafydd ei hun bwysleisio ei fod yn ceisio creu rhaglen newydd ac amrywiol gan anwybyddu llawer o'r hen ffefrynau, llwyddwyd i gael nifer o'r rheini serch hynny — rhai ohonynt ar ddeisyfiad taer Ray Gravell a lwyddodd i ymryddhau oddi wrth amserlen y tîm cenedlaethol y noson cyn y gêm, a dod i wrando ar Dafydd er mwyn ei roi ei hun mewn hwyliau da yn barod i roi crasfa i'r Albanwyr y diwrnod canlynol. Daeth Ray i'r llwyfan i ganu deuawd gyda Dafydd, a phrin y clywyd *Carlo*'n cael ei ddatgan efo'r fath afiaeth erioed o'r blaen!

Ie, cipolwg yn ôl dros hanes y blynyddoedd diwethaf — ond tybed a oedd rhai o blith y gynulleidfa wedi anghofio llawer erbyn hyn? Gwan ar y cyfan oedd yr ymateb i ganeuon y gellid disgwyl y byddai pawb wedi bod yn bloeddio eu canu, a go dawedog a hwyrfrydig ei hymateb oedd y gynulleidfa i lawer o'r rhaglen. Roedd dyn yn tueddi i deimlo fel brân yn crawcian mewn anialwch ar brydiau heb gysur torf o leisiau o'i gwmpas i foddi seiniau aflafar ei lais ei hun. Ond hwyrach wedyn fod llawer o leisiau gorau'r brifddinas wrthi'n llafarganu mewn mangreoedd eraill y noson cyn gêm ryngwladol!

Serch hynny i gyd, hyfryd oedd sylweddoli fod arddull Dafydd yn dal mor gynnes ac atyniadol ag erioed, nad yw wedi colli dim o'i hen fwrlwm a bod ei berfformiad bellach yn fwy amrywiol nag erioed o'r blaen. Roedd y noson yn un fendigedig (er gwaethaf y diafol yn sustem sain y Reardon Smith), ac nid rhagfarn sentimental hen law yn rhamantu wrth edrych yn ôl yw hynny chwaith. Cafwyd barn ddiduedd gan ferch o Lundain a eisteddai gerllaw, Saesnes heb air o Gymraeg, a oedd eto wedi ei swyno gan y perfformiad; â'i llygaid yn pefrio, "He's magic!", meddai.

Rhaid oedd wrth bob ymdrech ac ystryw (ag eithrio hud a lledrith, hwyrach) i sicrhau cydweithrediad deiliaid Clwb y Spotlight a'u cael i gadw at eu gair mai noson Gymraeg fyddai nos Iau, Chwefror 19eg yng Ngerddi Soffia. Hwyrach eu bod hwy yn meddwl y byddai'n syniad da i Gymry Caerdydd gael cyfle i glywed y P.J. Proby yn perfformio, ond gan na welsant yn dda i awgrymu hynny'n uniongyrchol wrth drefnwyr CABARET 19 ymlaen llaw, a chan na theimlai'r trefnwyr ar eu calon y byddai'r Br Proby yn gwbl gartrefol mewn noson Gymraeg, llwyddwyd i'w ddarbwylio ef i symud ei act i Tito's am y noson, a llwyddwyd i gynnal noson Gymraeg yn y Spotlight wedi'r cwbl.

Roedd y noson yn ddigwyddiad gweddol anarferol ym myd adloniant ysgafn Gymraeg ac yr oedd yn dra llwyddiannus er nad oedd y clwb anferth hwn efallai yn lle cwbl ddelfrydol i'r pwrpas. Hwyrach ei bod hi'n anheg hefyd gofyn i artistiaid i berfformio mewn rhyw bafiliwn Eisteddfodol o le heb sicrhau fod yna dim o arweinwyr Eisteddfodol yno hefyd i alw am "berffaith chwarae teg" gan y gynulleidfa a oedd yn un swnllyd, yn eithriadol felly yn ystod perfformiad Heather Jones. Trueni mawr oherwydd dyma un o'r perfformiadau gorau i Heather ei roi erioed; mae'n siwr fod y rhannau hynny o'r gynulleidfa a lwyddod i'w chlywed er gwaethaf pob peth yn cytuno â hynny.

Diolch o galon serch hynny i'r holl artistiaid a gymerodd ran: i Heather, i Olwen Rees, un o'r ychydig gantorion "clwb nos" Cymraeg sydd gennym, gyda'i llais rhywiog, ei symudiadau celfydd a'i hamseru perffaith; i Mynediad am Ddim, cyfuniad o dalentau bendigedig — ac wrth gwrs, i Dafydd Iwan unwaith eto, a wefreiddiodd y dorf o 700 a oedd yno. Brysied yn ôl i Gaerdydd yn fuan eto.

Gair arbennig o ddiolch i Hywel Gwynfryn a fu wrthi mor brysur yn llywio'r noson, yn cyflwyno'r artistiaid, yn rhedeg y disgo ac yn diddanu pawb (heb son am yr holl waith a wnaethpwyd ganddo ymlaen llaw ynglŷn â'r noson hon). Un ffordd a'r llall, noson i'w chofio — a wedi'r holl drybini, ac er gwaetha'r ffaith fod pennau'r trefnwyr wedi gwynnu dros nos wrth geisio troedio llwybrau dyrys "Clubland" Caerdydd, mae'n siwr fod pwyllgor yr Eisteddfod yn chwerthin yr holl ffordd i'r banc gyda'r elw o rai cannoedd a wnaethpwyd y noson honno.

GOHEBYDD ARBENNIG

# Pob hwyl ar Stesion Cantamil!




*Cheryl Edwards, Sian Harris, Iestyn Smith a Damon Rochfort o Ysgol Gymraeg Penarth yn cystadlu ar raglen HTV Cymru STESION CANTAMIL bnawn Gwener, Mawrth 5ed.*

# Y Gamp Lawn

**Pwy fydd yn ail — dyna'r cwestiwn. Ffrainc, mae'n siŵr, gan y byddan nhw'n chwarae ym Mharis ar Fawrth 20ain yn erbyn y Saeson ac fe all canlyniad honno fod yn debyg i'r canlyniadau a fu yn y Brifddinas honno yn 1970 a 1972 pan enillodd y Ffrancod o 35 i 13 a 37 i 12 — deuddeg cais yn erbyn tri. Roedd Lloegr rywfaint yn well yn 1974, rhaid dweud, ac ar eu hymweliad cynta' â Pharc des Princes newydd, deuddeg pwynt yr un oedd hi. Beth bynnag, 'does fawr o ddiddordeb inni yn y canlyniad hwnnw gan y byddwn ni'n Bencampwyr cyn hynny gydag wyth pwynt o'n pedair gêm, a chyfanrif o bwyntiau fydd, gobeithir, dros y cant. Yn ôl y wybodaeth sy gennyf i, fe fydd y rhifyn hwn o'r *Dinesydd* wedi ymddangos ychydig o ddyddiau cyn y gêm yn Y Stadiwm Genedlaethol yn erbyn Ffrainc (oni bydd e, bydd y sylwadau am y gêm honno'n hollol ddi-werth). Ond nid felly y sylwadau am y fuddugoliaeth fawr yn Nulyn a ddaeth â'r Goron Driphlyg i Gymru am y drydedd waith ar ddeg.**

Gêm hollol annisgwyl i'r rhan fwya ohonom ni a fu'n ei gwylio hi yn heulwen Chwefror. 'Roedd hi'n dipyn caletach i'w hennill nag a ddisgwylid o gofio record y Gwyddyl yn eu dwy gêm cyn hynny yn erbyn Awstralia a Ffrainc, er bod eu gêm draddodiadol nhw mor ddinistriol. Ac mae rygbi yn gêm lle mae hi'n bur hawdd i'r naill dîm ddinistrio chwarae creadigol y llall, os an' nhw ati hi o ddifri gan ddefnyddio egni a dyfalbarhad. Mae'n rhaid cael "cydweithrediad" y dyfarnwr, wrth reswm, ac ni all y gorau o'r rheiny, druain, weld popeth a ddylid ei gosbi yn yr ysgarmesoedd a'r leiniau. Ac yn y leiniau bu'r Gwyddelod ar eu gorau fel dinistrwyr — o leia' yn hanner cynta'r gêm. Meddyliwch beth a ellid ei wneud i sicrhau na chaiff eich gwrthwynebwyr feddiant gwerth ei gael o'r lein.

Hawdd hefyd ydy eu rhwystro rhag cael meddiant da o'r ysgarmesoedd troed, a phan fydd y bêl yn eu hanner nhw, mae rhoi cic gosb iddyn nhw oherwydd troseddu felly yn fawr o gosb yn aml iawn. Llai o fantais o lawer na gadael iddyn nhw gael meddiant defnyddiol o'r ysgarmes. Ond enillwyd y gêm yn y ffordd fwya' tywysogaidd, trwy sgorio ceisiau ac fe ddaeth tri o'r pedwar o'n chwarae creadigol ni — camgymeriad dybryd a arweiniodd at y cais cynta' er i Gerald greu'r cyfle i sgorio hwnnw wrth gwrs trwy fod yn y lle iawn ar ôl i'r cynnig am y pyst fethu â chyrraedd ei nod.


Hir y cofiwn ni'r tri chais arall yn y cyfnod byr hwnnw yn chwarter ola'r gêm. Y gic uchel hir gan Phil, dal Ensor druan cyn iddo gael cyfle i symud o'r fan a'r lle, ennill meddiant o'r ysgarmes law cyn i Gareth, Phil a J. P. Rh. greu lle i Gerald redeg heb neb o'i flaen i'r gornel. Gareth yn sgorio'r ail ei hunan — ei ddeunawfed i Gymru — ac yna y mwya gwefreiddiol o'r tri. Ennill meddiant ar ganol y cae yn hanner Iwerddon, allan i Phil, i Ray — hwnnw'n bwrw Meic Gibson ar ei gefn cyn rhoi pas perffaith i Phil oedd wedi rhedeg y tu allan iddo, ac wedyn y traed bach chwimwth yn gadael dau Wyddel ar eu hyd ar laswellt y cae yn Heol Lansdowne. Cais cynta'r maswr i Gymru a chyda'i drosiad ei hun cyrraedd cyfanrif o bedwar pwynt ar bymtheg, cyfraniad pur sylweddol tuag at ennill y Goron oddi cartre. Na ddyweder nad oeddem ni ddim yn haeddu ennill o gymaint wedi dangos y fath ddisgleirdeb yn y naw munud euraid hynny.

Y tro diwetha' inni ennill y Goron gyda dwy o'r tair gêm oddi cartre oedd yn 1952 pan sgoriwyd 33 o bwyntiau gyda 9 yn ein herbyn, a chwe chais i ddau. Eleni deg cais i un gyda 83 o bwyntiau'n erbyn 24, ond mae'r rheolau wedi newid gryn dipyn er 1952 felly peidiwch â gwneud gormod o hyn.

Dyna gêm a gawn ni os daw'r Ffrancod yma i ennill, oherwydd bydd y Cymru yn sicr o ddefnyddio pob un o'u doniau amrywiol i ragori hyd yn oed ar unrhyw beth a welwyd hyd yma yn ystod y tymor. Ond mi glywais si na fyddan nhw ddim yn chwarae felly ar y 6ed, ac fe allan nhw fod yn reit ddinistriol os dyna fydd eu dymuniad. Cawn ni weld yn fuan, ond beth bynnag a fydd eu nod, fydd gan hogiau Dax a'u cerddorion fawr i ganu amdano'r tro hwn. Y GAMP LAWN amdani.

THOMAS DAVIES.

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 29-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

GWESTY PLAS MAENAN

MAENAN, LLANRWST, DYFFRYN CONWY.

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

* NOSON LAWEN draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
* YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
* GWYLIAU GAEAF yn dechrau mis Hydref. £11.50 am benwythnos.
* POB LLOFT gyda ystafell ymolchi breifat, ffôn, teledu, offer gwneud te etc.
* CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
* CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Riwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232 (Côd - 049269)

# Da Iawn!

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a ganlyn o Ysgol Uwchradd Rhydfelen ar ennill ysgoloriaethau i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Angharad Dafydd, Delyth Evans, Nia Humphreys ac Emyr Lewis (Ysgoloriaethau Evan Morgan); Llinos Williams (Ysgoloriaeth Eisteddfod Brereton a'r Wyddgrug).

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*